# Y LLO AUR.

Cas Etholiad

SECOND EDITION. REVISED & ENLARGED. (MAE Y LLINELLAU RHWNG Y PENNILLION I'W HADRODD GAN UN.)

TON:—WHEN JOHNNY COMES MARCHING HOME.

Yn Merthyr Tydfil codwyd Llo,—Ha, ha! ha, ha!
O aur Meirionydd. "Dyna fo":—Ha, ha! ha, ha!
Llo bychan, haerllug, swrth ei lun,
Sy'n hoffi canu 'i glod ei hun;
Etholwyr, beth debygwch am y Llo?

(Dysprad!)

Mae'i farn Wleidyddol ar ei hynt,—Ha, ha! ha, ha!
Yn troi'n feunyddiol, fel y gwynt,—Ha, ha! ha, ha!
A llwyr newidir pluf y gwr
Yn aml i ateb lliw y dw'r,—
Etholwyr, beth debygwch am y Llo?

(Hereford Breed!)

Yn Mynwy bu yn Dori rhonc,—Ha, ha! ha, ha!
Yn Merthyr Tydfil rhoddodd sponc—Ha, ha! ha, ha!
I dir ni wybu, ac ni ŵyr,—
Mae wedi ymddyrysu'n llwyr;
Etholwyr, beth debygwch am y Llo?

(Real Castle Martin!)

Y Blaidd ni fedr droi yn oen,—Na, na! na, na!
Na'r llewpart crych gyfnewid croen,—Na, na! na, na!
Os Tori'n Mynwy oedd y Llo,
Yn Dori bydd lle bynag bo,—
Etholwyr, beth debygwch am y Llo?

(Un o Loi magu Sir Fynwy!)

Ei bleidwyr ydynt *Twm y Cic*,—Ha, ha! ha, ha!
Hen *Harri Fawlyd* a *Dai Dick*,—Ha, ha! ha, ha!
*Ike Goffin Delen*,—crac dilith,
*Phil Dafod Brwnt* a'r *Esgob Brith*,—
Gwehilion byd sydd yn addoli'r Llo.

(Dyna nhw am "No. 1," a chawl boreu dranoeth!)

*Cwmbwrla* wenog, *Twm ap Rhys*,—Ha, ha! ha, ha!
Am "dablen" rho'i pob un ei grys,—Ha, ha! ha, ha!
A *Dafydd Gam y Gwydr* mawr,
Er *aur* addola Lo yn awr,—
Gwehilion byd sydd yn addoli'r Llo.

(Mae "tablen" yn golygu unrhyw beth, o "Ddiodfainborter" Jaci Efans hyd "Wilful Murder Iniskillen!"

*Wil Francis* dwp, a *Shon o'r Bell*,—Ha, ha! ha, ha!
*Tom Tom* a'r Ustus,—*Bili Nell*,—Ha, ha! ha, ha!
*Dan Bach y Mêl*, *Shon yr hen foy*,
*Ted Are-you-nott*, Sir, wedi troi?—
Gwehilion byd sydd yn addoli'r Llo.

(Ystyr y gair "Ustus" yw "Ust! Us!")

Mae plant *Shon Haidd* â'u trwynau coch,—Ha, ha! ha, ha!
O blaid y Llo yn gwaeddu'n groch,—Ha, ha! ha, ha!
Y *gaffer-screw* yn llawn o *spleen*,
A *Dai o'r Nant behind the scene*—
Gwehilion byd sydd yn addoli'r Llo.

(Blodau *Haidd* yw trwynau coch!)

*Dai Gelwydd Mawr* a *Shon y Pills*,—Ha, ha! ha, ha!
A dau neu dri o *Wyr y Quills*,—Ha, ha! ha, ha!
*Syr David Saesneg*, Mishtar *Codd*,
*Blue Pill*, *Twm Getyn Gaffer odd*,
Gwehilion byd sydd yn addoli'r Llo.

(Hyny yw, Gwehilion Gwleidyddol. Mae rhai o honynt yn *right* eu gwala mewn ystyron ereill. *Dai Gelwydd Mawr* yn enghraifft!)

*Dai ddrwg ei gâs* a *drwg ei liw*,—Ha, ha! ha, ha!
A *Rhys o'r Bullfa* gyda'i *scriw*,—Ha, ha! ha, ha!
*John Gariboo* a *Lines ab Pot*.
Wel, bobol anwyl, dyna *lot!*
Gwehilion byd sydd yn addoli'r Llo.

(Dysprad!)

*Joe Gefngymhwys, Dyffryn Taf*,—Ha, ha! ha, ha!
Hen *Ddic Gyfartha*,*—dyna gnaf!—Ha, ha! ha, ha!
Ac *Esgob Abercanaid* sydd
Yn plygu'i glin i Lo bob dydd,—
Penboethiaid byd sydd yn addoli'r Llo.

(*Richard—Ceiliog-y-Gwynt—Cydwybod—India Rubber—Jones!)

FFOULKES GRIFFITHS ffraethlym ydyw'r dyn,—Hwra,
Mae'n gadarn fel y graig ddigryn,—Hwra, hwra! [hwra!
RHYDDFRYDWR perffaith,—CYMRO pur;—
Wel, safwn drosto fel y dur,—
Ac aed y *scum* bob un ar ol y Llo.

(Hwra!)

X 2052404 52